

Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 7393**

E-bost: **Christian.Tipples@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) Crynodeb o'r Bil

Ebrill 2022

Awdur: Christian Tipples



Crynodeb Gweithredol

Cefndir

Rhoddodd **Deddf Cymru 2014** bwerau trethu a benthyca newydd i Gymru. Roedd y Ddeddf yn datganoli Treth Dir y Doll Stamp a'r Dreth Dirlenwi i'r Senedd, a gafodd eu disodli ym mis Ebrill 2018 gan y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn y drefn honno yng Nghymru.

Cafodd **Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017** a **Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017** eu pasio gan y Senedd i alluogi Llywodraeth Cymru i weinyddu'r ddwy dreth newydd.

Ym mis Hydref 2017, sefydlodd Llywodraeth Cymru **Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)** drwy **Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** i gasglu a rheoli'r trethi datganoledig.

Gelwir y tair Deddf hyn gyda'i gilydd yn Ddeddfau Trethi Cymru. Mae'r Bil yn ceisio pwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r Deddfau hyn.

Diben y Bil

Diben arfaethedig y Bil yw galluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru i gael eu gwneud drwy reoliadau pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod newidiadau o'r fath yn angenrheidiol neu'n briodol a lle bo'n ofynnol iddynt gael effaith ar unwaith neu'n fuan wedi hynny, yn yr amgylchiadau canlynol:

- i sicrhau bod trethi datganoledig Cymru yn cydymffurfio ag unrhyw rhwymedigaethau rhyngwladol.
 - i ddiogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig Cymru.
 - i ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i'r Dreth Dir y Doll Stamp a'r Dreth Dirlenwi sy'n effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru, neu a allai effeithio ar y swm hwnnw; ac
 - i ymateb i benderfyniadau'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd sy'n effeithio ar sut y mae Deddfau Trethi Cymru, neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt, yn gweithredu, neu a allai effeithio ar sut y maent yn gweithredu.
-

Darpariaethau'r Bil

Mae'r Bil yn cynnwys wyth adran.

Adran 1. Pŵer i addasu Deddfau Trethi Cymru etc

Mae adran 1 **yn darparu** y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau (y gellir eu gwneud naill ai drwy'r weithdrefn ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed') addasu Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir oddi tanynt i ymateb i'r pedwar amgylchiad fel y'u nodwyd yn flaenorol.

Adran 2. Rheoliadau o dan adran 1: atodol

Mae adran 2 **yn darparu** y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 1 o'r Bil wneud newidiadau i'r trethi datganoledig gan gynnwys gosod newidiadau i'r symiau sy'n daladwy gan drethdalwyr, gosod a/neu ymestyn cosbau arfaethedig, a gellir hefyd eu gwneud yn ôl-weithredol. Fodd bynnag, ni chaniateir gosod cosb newydd neu newid cosb sy'n bodoli eisoes yn ôl-weithredol.

Adran 3. Datganiad polisi

Mae adran 3 **yn gosod dyletswydd** ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad ar eu dull o wneud rheoliadau o dan adran 1 o'r Bil sy'n cael effaith ôl-weithredol. Rhaid i'r datganiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â dyddiad y Cydsyniad Brenhinol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **Datganiad o Fwriad Polisi** a **Datganiad Drafft ar Wneud Deddfwriaeth ôl-weithredol**.

Adran 4. Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau

Mae adran 4 yn pennu gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r **weithdrefn ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwanaed'**. Mae'r Memorandwm Esboniadol **yn nodi** y bydd Gweinidogion Cymru yn "ceisio defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft lle bo modd"

Adran 5. Rheoliadau'n peidio â chael effaith

Mae Adran 5 **yn amlinellu** beth sy'n digwydd pan fo rheoliadau a ddrafftwyd o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwanaed' yn peidio â chael effaith o ganlyniad i fethu

â chael cymeradwyaeth y Senedd. O ganlyniad, bydd unrhyw atebolrwydd treth neu atebolrwydd treth uwch a gyflwynir gan y rheoliadau sydd wedi methu yn cael ei drin fel pe na bai erioed wedi codi.

Adrannau eraill

Mae **adran 6 yn cynnwys diffiniadau** sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Mae **adran 7 yn nodi** y bydd y Bil yn dod i rym y diwrnod ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol ac mae **Adran 8 yn cadarnhau** teitl byr y Bil.

Costau ac effeithiau'r Bil

Costau

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)** sydd wedi'i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol yn nodi nad oes unrhyw gostau o ganlyniad i'r Bil yn uniongyrchol. Fodd bynnag, bydd y costau'n dibynnu ar natur y newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru yn y dyfodol wrth i unrhyw is-ddeddfwriaeth gael ei pharatoi.

O ganlyniad, byddai asesiad effaith ar wahân, gan gynnwys costau amcangyfrifedig, yn cael ei gwblhau pan fyddai'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir gan y Bil yn cael eu defnyddio i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

Manteision

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol mai un **fantais allweddol** y Bil yw'r gallu i ddiogelu refeniw treth Llywodraeth Cymru, neu i roi gostyngiadau amserol i drethdalwyr yn eu rhwymedigaethau er nad yw'n bosibl meintioli'r fantais hon hyd nes y bydd newidiadau'n hysbys.

Asesiadau effaith integredig

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol **yn datgan** bod yna effeithiau cyfyngedig o ganlyniad i'r Bil yn uniongyrchol. Byddai asesiad effaith ar wahân yn cael ei gwblhau bob tro y byddai Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau i wneud rheoliadau i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

Cynnwys

1. Cefndir y Bil	1
1.1. Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu).....	1
1.2. Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.....	1
1.3. Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017	2
1.4. Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.....	2
2. Crynodeb o'r Bil.....	3
2.1. Diben y Bil	3
2.2. Darpariaethau'r Bil.....	4
3. Costau ac effeithiau'r Bil	7
3.1. Opsiwn 1. Gwneud dim.....	7
3.2. Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol	8
4. Yr ymateb i'r Bil.....	10
5. Amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu	13

1. Cefndir y Bil

Mae Rhan 2 o **Ddeddf Cymru 2014** yn rhoi pwerau cyllidol newydd i'r Senedd ar ffurf trethiant a benthyca er mwyn cynyddu atebolrwydd Llywodraeth Cymru i bobl Cymru. Gwnaeth y Ddeddf ddatganoli Treth Dir y Dreth Stamp (SDLT) a Threth Dirlenwi (LT) y DU i Cymru.

Disodlwyd SDLT a'r LT gan y Dreth Trafodiadau Tir (LTT) a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yng Nghymru I ddeddfu ar gyfer y trethi hynny, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017** a **Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017**. Hefyd, sefydlodd Llywodraeth Cymru Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) drwy **Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** i weinyddu'r trethi hyn.

1.1. Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)

Mae'r Bil **yn ceisio** rhoi pŵer gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru bwerau i ddiwygio Deddfau Trethi Cymru (ac is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt) o dan amgylchiadau penodol. Mae Deddfau Trethi Cymru yn cynnwys:

- Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016
- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017
- Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

1.2. Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Roedd **Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a'i swyddogaethau mewn perthynas â gweinyddu'r trethi datganoledig yng Nghymru. Roedd deddfwriaeth allweddol yn cynnwys:

- rhoi pwerau a dyletswyddau priodol i ACC mewn perthynas â dychwelyd ffurflenni treth a chynnal ymchwiliadau ac asesiadau;
- pwerau ymchwilio a gorfodi sifil, gan gynnwys pwerau sy'n galluogi ACC i ofyn am wybodaeth a dogfennau ac i asesu ac archwilio mangreoedd ac eiddo arall;
- dyletswyddau ar drethdalwyr i dalu cosbau a llog dan rai amgylchiadau;
- hawliau i drethdalwyr ofyn am adolygiadau mewnol o rai o benderfyniadau ACC ac i apelio i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau o'r fath;
- chyflwyno pwerau gorfodi troseddol ar Awdurdod Cyllid Cymru.

Mae Adran 2(3) o'r Bil **yn nodi** na chaiff Gweinidogion Cymru addasu darpariaethau Rhan 2 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016.

Mae'r **Memorandwm Esboniadol** sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi "ni ragwelir y byddai angen i Weinidogion Cymru ymateb ar fyr rybudd i newidiadau i sefydlu, aelodaeth a gweithrediad adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru megis ACC".

1.3. Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017

Roedd **Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017** yn deddfu ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir i ddisodli SDLT o fis Ebrill 2018. Mae'r Dreth Trafodiadau Tir yn daladwy pan brynir eiddo neu dir dros drothwy pris penodol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn nodi egwyddorion allweddol Treth Trafodiadau Tir, sy'n cynnwys:

- y mathau o drafodiadau a fydd yn denu tâl i'r Dreth Trafodiadau Tir a'r person sy'n atebol i dalu'r dreth;
- y weithdrefn ar gyfer pennu cyfraddau a bandiau trethi;
- sut y byddai'r dreth ei chyfrifo a pha ryddhadau allai fod yn gymwys;
- mesurau penodol i fynd i'r afael ag osgoi trethi;
- cymhwysu'r dreth mewn perthynas â lesioedd;
- y darpariaethau penodol sy'n gymwys i ystod o bersonau a chyrrff mewn perthynas ag LTT;
- y ddarpariaeth ar gyfer llenwi ffurflen dreth ac ar gyfer talu'r dreth; a
- dyletswyddau ar drethdalwyr i wneud taliadau a thalu cosbau a llog o dan rai amgylchiadau.

Mae **Adran 2(3) o'r Bil** yn eithrio pwerau i Weinidogion Cymru addasu rheoliadau sy'n pennu bandiau a chyfraddau treth ar gyfer Treth Trafodiadau Tir. Mae **Adran 24** o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 eisoes yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru newid cyfraddau a bandiau Treth Trafodiadau Tir.

1.4. Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Treth sy'n daladwy wrth waredu deunydd fel gwastraff i safleoedd tirlenwi yw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r Ddeddf **yn cwmpasu'r meysydd canlynol**:

- Y diffiniad o "warediad trethadwy" y codir LDT arno;

- Diffiniad o safle tirlenwi awdurdodedig a'r hyn a ddisgwylir gan weithredwyr safleoedd tirlenwi o ran eu hatebolrwydd i dalu LDT, y ddyletswydd i gofrestru gydag Awdurdod Cyllid Cymru, sut i gadw cyfrifon ar gyfer LDT etc.;
- Sut mae LDT yn gymwys i warediadau a wneir mewn mannau eraill heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig a phwy sy'n atebol am dalu LDT ar warediadau o'r fath.
- Sut y byddai LDT yn cael ei gyfrifo, pa gyfradd dreth a fyddai'n gymwys a pha esemptiadau, rhyddhadau a chredydau a allai fod yn gymwys;
- Dyletswyddau ar drethdalwyr i wneud taliadau a thalu cosbau a llog o dan rai amgylchiadau; ac
- Archwilio safleoedd er mwyn penderfynu a yw person yn atebol am dalu LDT, a rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau cyhoeddus penodol at ddibenion LDT.

Fel LTT, mae Adran 2(3) o'r Bil **yn eithrio pwerau gwneud rheoliadau** sy'n pennu cyfraddau treth ar gyfer LDT, a nodir yn **Adran 95** o Ddeddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

2. Crynodeb o'r Bil

2.1. Diben y Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn **nodi mai diben arfaethedig** y Bil yw galluogi newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru i gael eu gwneud drwy reoliadau pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod newidiadau o'r fath yn angenrheidiol neu'n briodol a lle bo'n ofynnol iddynt gael effaith ar unwaith neu'n fuan wedi hynny. Caniateir y newidiadau hynny er mwyn ymateb i bedwar diben:

1. sicrhau nad yw trethi datganoledig Cymru yn cael eu gorfodi lle na fyddai hynny'n gydnaws ag unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol;
2. i ddiogelu rhag osgoi trethi mewn perthynas â threthi datganoledig Cymru;
3. i ymateb i newidiadau a wneir gan Lywodraeth y DU i'r trethi 'rhagflaenol' (SDLT ac LT) sy'n effeithio ar y swm a delir i Gronfa Gyfunol Cymru, neu a allai effeithio ar y swm hwnnw; ac
4. i ymateb i benderfyniadau'r llysoedd neu'r tribiwnlysoedd sy'n effeithio ar sut y mae Deddfau Trethi Cymru, neu unrhyw reoliadau a wneir oddi tanynt, yn gweithredu, neu a allai effeithio ar sut y maent yn gweithredu.

2.2. Darpariaethau'r Bil

Mae'r Bil **yn cynnwys wyth adran**:

Adran 1. Pŵer i addasu Deddfau Trethi Cymru etc

Mae'r adran hon **yn darparu** y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau (y gellir eu gwneud naill ai drwy'r weithdrefn ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed') addasu Deddfau Trethi Cymru a rheoliadau a wneir oddi tanynt i ymateb i'r pedwar diben a nodir uchod.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi mai bwriad y **profion diben** yw cyfyngu ar y defnydd o'r pŵer. Mae'r profion yn targedu'r meysydd hynny lle y rhagwelir y gallai fod angen ymateb gan Weinidogion Cymru i ddigwyddiadau allanol er mwyn diogelu refeniw a threthdalwyr.

Adran 2. Rheoliadau o dan adran 1: atodol

Mae adran 2 **yn darparu** y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 1 o'r Bil wneud newidiadau i'r trethi datganoledig gan gynnwys gosod newidiadau i'r symiau sy'n daladwy gan drethdalwyr, gosod a/neu ymestyn cosbau arfaethedig, a gellir hefyd eu gwneud yn ôl-weithredol. Fodd bynnag, ni chaniateir gosod cosb newydd neu newid cosb sy'n bodoli eisoes yn ôl-weithredol.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn **nodi** fod Gweinidogion Cymru o'r farn bod angen gwneud newidiadau deddfwriaethol yn ôl-weithredol, lle y credir bod hynny'n angenrheidiol, fesul achos.

Mae'r Memorandwm Esboniadol **yn egluro** mai'r rheswm am hyn yw y gallai'r gallu i ymateb i ddigwyddiadau allanol olygu bod angen i'r ddeddfwriaeth fod yn gymwys o ddyddiad cynharach na phan wneir y rheoliadau.

Adran 3. Datganiad polisi

Mae adran 3 **yn gosod dyletswydd** ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad ar eu dull o wneud rheoliadau o dan adran 1 o'r Bil sy'n cael effaith ôl-weithredol. Rhaid i'r datganiad gael ei gyhoeddi cyn diwedd y cyfnod o dri mis sy'n dechrau â dyddiad y Cydsyniad Brenhinol.

Mae enghreifftiau **a ddarperir** yn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pryd y caiff Gweinidogion Cymru ystyried gwneud rheoliadau ag effaith ôl-weithredol yn cynnwys meysydd fel:

- pan wneir newid gan Lywodraeth y DU sy'n cael effaith ar unwaith ac sy'n darparu treth, a thrwy hynny fantais fasnachol i endidau sy'n agored i'r dreth ragflaenol,
- pan wneir newid gan Lywodraeth y DU sy'n cael effaith ar unwaith ac sy'n codi symiau sylweddol o dreth gan dreth ragflaenol ac a fydd yn cael effaith sylweddol ar yr addasiad i'r grant bloc
- lle'r ymglymerir â gweithgarwch osgoi trethi,
- pan fo penderfyniad llys yn golygu na fydd y ddeddfwriaeth yn gweithredu yn unol â'r bwriad gan Lywodraeth Cymru a'r Senedd pan gafodd ei deddfu.

Mae Adran 3 **hefyd yn caniatáu** i Weinidogion Cymru ddiwygio eu datganiad polisi (a'i gwneud yn ofynnol i unrhyw ddatganiad diwygiedig gael ei gyhoeddi).

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **Datganiad o Fwriad Polisi a Datganiad Drafft ar Wneud Deddfwriaeth ôl-weithredol**.

Adran 4. Gweithdrefn ar gyfer rheoliadau

Mae adran 4 **yn pennu** gweithdrefnau'r Senedd ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran. Bydd y rheoliadau'n ddarostyngedig i'r **weithdrefn ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'**. Mae'r Memorandwm Esboniadol **yn nodi** y bydd Gweinidogion Cymru yn "ceisio defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft lle bo modd"

Gweithdrefn gadarnhaol ddrafft

Mae defnyddio gweithdrefn gadarnhaol ddrafft yn golygu mai dim ond ar ôl i'r Senedd eu cymeradwyo y gellir gwneud y rheoliadau. Mae'r Memorandwm Esboniadol **yn nodi** y bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft pan fo angen llai o frys a lle mae amser i'r Senedd gymeradwyo'r rheoliadau cyn iddynt gael eu gwneud.

Y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'

Byddai'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' **yn cael ei defnyddio** pan fydd angen i newidiadau ddod i rym ar unwaith neu'n fuan wedi hynny. Bydd rheoliadau cadarnhaol a wneir yn cael effaith dros dro a rhaid iddynt gael eu cymeradwyo o fewn cyfnod o 60 diwrnod Senedd ar y mwyaf i alluogi'r rheoliadau hynny i ddod yn barhaol.

Adran 5. Rheoliadau'n peidio â chael effaith

Mae Adran 5 yn **amlinellu** beth sy'n digwydd pan fo rheoliadau a wnaed o dan y weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yn peidio â chael effaith o ganlyniad i fethu â chael cymeradwyaeth y Senedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol **yn nodi** y Bydd y rheoliadau sydd wedi methu yn cael effaith yn ystod y cyfnod o'r dyddiad y deuant i rym nes iddynt gael eu gwrthod. Bydd unrhyw atebolrwydd treth newydd neu atebolrwydd treth uwch a gyflwynir gan y rheoliadau sydd wedi methu yn cael ei drin fel pe na bai erioed yn bodoli, a bydd unrhyw dynnu'n ôl neu leihau hawl hefyd yn cael ei drin fel pe na bai erioed wedi codi.

Yn yr un modd, bydd unrhyw atebolrwydd i gosb neu i swm uwch o gosb a osodwyd gan y rheoliadau a fethwyd yn cael ei drin fel pe na bai byth wedi codi.

Mae'r Memorandwm Esboniadol **yn amlygu ymhellach** bod adran 5 hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer sefyllfaoedd lle y gallai camau fod wedi'u cymryd gan ddibynnu ar y rheoliadau sydd wedi methu, er enghraifft pan fo safleoedd wedi'u harolygu neu ddogfennau wedi'u harchwilio yn ystod y cyfnod pan oedd y rheoliadau'n ddilys. Yn yr achosion hynny, mae unrhyw gamau a gymerir yn dal yn ddilys, er gwaethaf y rheoliadau sydd wedi methu.

Mae'r Memorandwm Esboniadol **hefyd yn nodi** mai bwriad Adran 5 yw:

...sichrau bod y risg o ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol "gwnaed" i'w hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru yn unig ac nid gan drethdalwyr Cymru, sydd i'w diogelu rhag heriau sy'n ymwneud ag unrhyw beth a wnaed, neu na wnaed, wrth ddibynnu ar y rheoliadau a fethodd yn ystod y cyfnod yr oedd y rheoliadau a fethodd mewn grym.

Adrannau eraill

Mae **adran 6 yn cynnwys diffiniadau** sydd wedi'u cynnwys yn y Bil. Mae **adran 7 yn nodi** y bydd y Bil yn dod i rym y diwrnod ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol ac mae **Adran 8 yn cadarnhau** teitl byr y Bil.

3. Costau ac effeithiau'r Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn **nodi** dau opsiwn:

1. Gwneud dim
2. Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol

3.1. Opsiwn 1. Gwneud dim

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol **yn nodi** y byddai costau'n dibynnu ar y math o fecanwaith deddfwriaethol fyddai'n cael eu rhoi ar waith.

Bil brys / Bil 'carlam'

Byddai'r mecanwaith hwn yn mynd i gostau gweinyddol nodweddiadol Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r math hwn o ddeddfwriaeth. O ystyried yr amserlenni cywasgedig sy'n gysylltiedig â Bil brys neu Fil carlam, efallai y bydd angen dyraniad sylweddol o adnoddau Llywodraeth Cymru am gyfnod byr. Byddai'r gost yn dibynnu ar gymhlethdod a maint y ddeddfwriaeth.

Deddfwriaeth sylfaenol

Byddai deddfwriaeth sylfaenol yn arwain at gostau gweinyddol nodweddiadol sy'n gysylltiedig â drafftio a rheoli Bil y Llywodraeth. Mae'r gofynion adnoddau yn debygol o fod yn debyg i'r rhai yr eir iddynt ar gyfer bil brys neu fil cyflym; fodd bynnag, bydd y costau hyn yn ymestyn dros gyfnod hwy, fel arfer tua 12-18 mis.

Is-ddeddfwriaeth

Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y bydd nifer o sefyllfaoedd lle y gellid defnyddio'r pwerau presennol yn Neddfau Trethi Cymru i wneud newidiadau. Ni ragwelir y bydd unrhyw wahaniaeth mewn costau gweinyddol rhwng y gweithdrefnau drafft a'r gweithdrefnau cadarnhaol 'gwnaed'.

Fodd bynnag, mae mân gostau neu arbedion cost posibl i Lywodraeth Cymru yn codi'n ddiweddarach pan ddaw rheoliadau cadarnhaol drafft i rym yn hytrach na phe bai'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' wedi'i defnyddio. **Dywedodd** Llywodraeth Cymru nad yw'n bosibl meintio'r costau hyn neu'r arbedion cost o gofio nad yw'r newidiadau yn hysbys yn ystod y cam hwn.

Gwnaeth yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol **hefyd amlygu** bod meysydd sylweddol lle nad yw'r pwerau i wneud y newidiadau a ddymunir drwy ddeddfwriaeth bresennol

yn bodoli sy'n golygu mai dim ond y llwybr deddfwriaeth sylfaenol y gellir ei ddilyn.

Manteision

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol **yn datgan mai mantais** opsiwn 1 yw nad oes angen adnoddau ar hyn o bryd i fwrw ymlaen â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, pe bai angen i Lywodraeth Cymru wneud newid ar fyr rybudd, ac nad oedd pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth a oedd yn bodoli eisoes ar gael, yna mae'n debygol y byddai angen Bil Argyfwng neu Fil carlam.

3.2. Opsiwn 2. Cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn **nodi nad oes unrhyw gostau** o ganlyniad i'r Bil yn uniongyrchol. Fodd bynnag, soniodd y bydd y costau'n codi wrth i unrhyw is-ddeddfwriaeth gael ei pharatoi.

O ganlyniad, nid yw'r costau gweinyddol a gweithredu, na'r amserlen, ar gyfer cyflwyno newidiadau o'r fath drwy is-ddeddfwriaeth yn hysbys ar hyn o bryd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn **nodi ymhellach** ei bod yn bosibl y bydd y Bil yn arwain at gostau cydymffurfio yn y dyfodol ond, fel gydag elfennau eraill, lle bydd y costau hyn yn disgyn a bydd eu maint yn dibynnu ar natur newidiadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, pan fydd rheoliadau'n cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru sy'n arfer y pŵer a ddarperir gan y Bil, efallai y bydd costau cydymffurfio yn codi ar ACC ac i drethdalwyr a'u cynghorwyr.

Byddai asesiad effaith ar wahân, gan gynnwys costau amcangyfrifedig, yn cael ei **gwblhau** pan fyddai'r pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir gan y Bil yn cael eu defnyddio i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol **hefyd yn nodi** y "caiff costau uniongyrchol cyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol arfaethedig eu talu gan ddefnyddio cyllid presennol swyddogion a gwasanaethau cyfreithiol Llywodraeth Cymru. Nid oes unrhyw gostau eraill yn gysylltiedig â chyflwyno'r ddeddfwriaeth hon."

Byddai costau gweinyddol i Lywodraeth Cymru ac ACC o ddatblygu a gweithredu'r is-ddeddfwriaeth, ac i'r Senedd wrth graffu ar y ddeddfwriaeth. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol **yn nodi** y byddai'r costau hyn yn cyfateb yn fras i'r rhai yr eir iddynt o dan opsiwn 1.

Arbedion

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn **amlygu** bod arbedion cost posibl yn dibynnu ar y math o newid a'u bod yn anodd eu rhagweld gan nad yw'r newidiadau'n hysbys. Fodd bynnag, nodir mai un o amcanion allweddol y Bil yw galluogi arbedion cost yn y dyfodol drwy ddiogelu refeniw treth Cymru.

Asesiadau Effaith Integredig

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol **yn datgan** bod yna effeithiau cyfyngedig o ganlyniad i'r Bil yn uniongyrchol. Byddai asesiad effaith ar wahân yn cael ei gwblhau bob tro y byddai'r pwerau yn cael eu defnyddio i wneud rheoliadau i wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol **hefyd yn nodi nad yw'r Bil** yn effeithio ar y meysydd canlynol:

- Hawliau plant a phobl ifanc
- Cydraddoldeb
- Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol (ECHR)
- Diogelu data
- Y Gymraeg
- Bioamrywiaeth, newid hinsawdd ac adnoddau naturiol
- Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder
- Prawfesur polisiau o safbwynt anghenion cefn gwlad
- Economaidd-gymdeithasol

4. Yr ymateb i'r Bil

Gwnaeth y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Rebecca Evans AS, sydd â gofal am y Bil **ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn** ar 14 Rhagfyr 2021.

Nododd Peter Fox AS ei bod hi'n iawn i sicrhau nad yw trethdalwyr Cymru yn cael eu gadael dan anfantais o gymharu â threthdalwyr eraill ledled y DU pan wneir newidiadau i'r trethi rhagflaenol, yn ogystal â chau bylchau treth fel y gellir defnyddio cyllid i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Fodd bynnag, cytunodd yr Aelod â'r Sefydliad Trethiant Siartredig (CIOT) a Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) – a ddywedodd yn **eu hymateb** i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil – mai eu safbwynt arferol yw y dylai deddfwriaeth treth fod mewn deddfwriaeth sylfaenol, yn enwedig yn yr achos pan fo deddfwriaeth yn ymwneud ag arfer pwerau trethu, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol iawn.

Cyfeiriodd yr Aelod at yr angen am sail ddeddfwriaethol i'r gyllideb a'r prosesau gosod trethiant yng Nghymru gan egluro, drwy ddefnyddio rheoliadau i wneud newidiadau i drethiant, y gellid defnyddio'r Bil i fynd ymhellach nag a fwriadwyd yn wreiddiol.

Nododd fod Llywodraeth Cymru wedi gwrthod clo y Senedd, a gynigiwyd yn wreiddiol yn ei dogfen ymgynghori ar y Bil ac y byddai hynny **wedi golygu** y byddai angen i'r Senedd gytuno i 'ddatgloi' y pwerau i Weinidogion Cymru eu harfer.

Tynnodd yr Aelod sylw hefyd at yr amwysedd posibl ynghylch pryd y caniateir i'r pwerau arfaethedig yn y Bil gael eu defnyddio a'r cymhlethdod i ddeddfwriaeth treth sylfaenol os oes angen swm sylweddol o is-ddeddfwriaeth.

Atebodd y Gweinidog:

Un o'r materion sylweddol y gwnaethoch ei godi, yn y bôn, oedd beth am ddefnyddio Bil cyllid, ac rwy'n gwybod bod hyn wedi bod yn fater o ddiddordeb i bwyllgorau cyllid yn y Senedd flaenorol. Fy safbwynt i o hyd yw nad wyf i'n ystyried bod yr amseru'n iawn i gyflwyno cyllideb flynyddol na Bil cyllid y gellir ei ddefnyddio i wneud newidiadau i Ddeddfau trethi Cymru.

Nododd ymhellach:

Un ystyriaeth allweddol i Ddeddfau trethi Cymru yn benodol yw nad yw nifer yr is-ddeddfwriaeth y mae'r Deddfau hyn wedi eu creu hyd yma yn arwyddocaol o gwbl, ac wrth i ni ddatblygu trethi mwy

datganoledig, yna rwy'n credu, o bosibl, y gallai fod dadl gryfach dros Fil cyllid blynyddol, ond byddwn i hyd yn oed yn dadlau pe bai gennym ni Fil cyllid blynyddol, byddai dal angen y pwerau arnom ni y mae'r Bil hwn yn darparu ar eu cyfer, oherwydd eu bod nhw'n galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i ddigwyddiadau allanol na fydden nhw o reidrwydd yn cyd-fynd â chylch Bil cyllid Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, nid yw cyllideb y DU, lle gall newidiadau ddigwydd, ar gylch sefydlog, ac mae'n digwydd yn aml fwy nag unwaith y flwyddyn, ac mae digwyddiadau cyllidol eraill hefyd pan fo modd cyhoeddi newidiadau, er enghraifft, mae cyfraddau treth dir y dreth stamp ym mis Gorffennaf 2020 yn enghraifft o hynny, rwy'n credu.

Nododd y Gweinidog hefyd y "bydd y Bil yn galluogi Llywodraeth Cymru i fod yn llawer mwy ymatebol i newidiadau ehangach, fel penderfyniadau llys a gweithgarwch osgoi, nag sy'n wir am ddull Bil Cyllid Llywodraeth y DU neu ddull gweithredu Llywodraeth yr Alban, lle caiff newidiadau eu gwneud yn aml drwy Fil cyllid yn unig."

Aeth y Gweinidog ymlaen i egluro pam nad yw pwerau presennol yn cael eu defnyddio:

O ran pam nad ydym yn defnyddio pwerau presennol—felly, gan feddwl am ddeddfwriaeth sylfaenol, er enghraifft—nod y Bil yw darparu offeryn hyblyg ychwanegol i ganiatáu i Weinidogion ymateb yn gyflym i amgylchiadau allanol sy'n effeithio ar ein trethi datganoledig. Yn gyffredinol, mae deddfwriaeth sylfaenol yn cymryd tua 12 i 18 mis i ddatblygu a chwblhau'r cylch hwnnw o graffu gan y Senedd, felly ni fyddai'n ein galluogi i ymateb mewn modd ystwyth pe bai angen i ni wneud hynny ar fyr rybudd, er enghraifft, i atal gweithgarwch osgoi treth.

Nododd y Gweinidog ymhellach mai bwriad clo y Senedd oedd "ymateb i bryderon y byddai'r pŵer yn anarferol o eang, ond mae'r Bil bellach, fel y mae wedi ei ddrafftio ar hyn o bryd, wedi lleihau cwmpas y pŵer yn fawr i'r pedwar prawf diben hynny, nid oes modd eu defnyddio ond pan gaiff ei ystyried eu bod yn angenrheidiol neu'n briodol." Dywedodd:

Ac felly mae hynny, yn fy marn i, yn cyfyngu'n ddigonol ar y pŵer fel na fyddai clo y Senedd, a fyddai ei hun wedi bod yn anghonfensiynol ac a allai osod cynsail di-fudd ar gyfer pwerau cadarnhaol a wnaed yn y dyfodol, yn briodol, oherwydd ein bod ni wedi lleihau pethau gyda'r Bil hwn gymaint.

Pwysleisiodd Llyr Gruffydd AS mai ei farn ef yw y dylai'r Senedd fod yn symud tuag at Fil Cyllid neu Fil Cyllideb blynyddol mewn pryd a chytunodd â'r Gweinidog "boed hynny'n digwydd neu beidio, mae'n dal angen y pwerau y mae'r Llywodraeth yn edrych amdany'n nhw yn y Bil sydd o'n blaenau ni heddiw". Dywedodd yr Aelod:

Dwi wedi dweud yn y gorffennol, does gyda fi ddim problem mewn egwyddor i bwerau o'r math yma gael eu rhoi i Weinidogion Cymru. Mae'n gwbl resymol. Mae cael modd i gyflwyno newidiadau ar fyr rybudd fel hyn yn rhywbeth, dwi'n meddwl, sydd yn rhesymol, fel rwy'n dweud, ond mae'n gorfod digwydd o dan amgylchiadau penodol. Byddai methu ag ymateb yn arwain efallai at oblygiadau niweidiol, goblygiadau annheg, at sefyllfa afresymol. Dwi'n credu o dan yr amgylchiadau hynny ei bod hi'n rhesymol ein bod ni'n symud i'r cyfeiriad yna. Mae'n rhywbeth y mae Llywodraethau eraill yn ei gymryd yn ganiataol o gwmpas y byd. Felly, does dim byd unigryw yn hynny o beth.

Fodd bynnag, nododd yr Aelod:

Wedi dweud hynny i gyd, cyn gallu cefnogi deddfwriaeth sy'n grymuso Gweinidogion fel hyn, mae'n rhaid i ni i gyd fod yn hyderus fod y cyfyngiadau angenrheidiol yn eu lle i wneud yn siŵr bod y paramedrau yn glir o ran, yn gyntaf, o dan ba amgylchiadau mae'r Gweinidog yn gallu gweithredu, yn ail, i ba raddau mae'r Llywodraeth yn gallu gweithredu, ac yn drydydd wedyn wrth gwrs, bod yna fesurau cryf yn eu lle i sicrhau craffu a phroses o roi cydsyniad seneddol amserol, neu mor fuan ag sy'n bosib ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Ar yr olwg gyntaf, mae'r ddeddfwriaeth i fi yn edrych yn eithaf rhesymol ar y ffryntiau yna, ond yn amlwg dwi'n edrych ymlaen i graffu ar y ddeddfwriaeth arfaethedig dros yr wythnosau a'r misoedd nesaf.

Gofynnodd i'r Gweinidog gadarnhau y byddai'r pwerau a ddarperir i Weinidogion Cymru yn y Bil ond yn cael eu defnyddio "o dan amgylchiadau eithriadol yn unig a phan fod dim opsiynau amgen".

Gofynnodd yr Aelod hefyd pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i "gynnwys lleisiau neu bersbectifau mwy annibynnol yn y broses o benderfynu gweithredu'r pwerau yma?"

Atebodd y Gweinidog:

...Rwy'n siŵr y byddwn ni'n parhau i ddychwelyd at y cwestiwn a oes angen Bil cyllid ar hyn o bryd ai peidio, ond fel y dywedais i, byddwn ni'n parhau i adolygu hynny wrth i amgylchiadau ddatblygu a newid yn y dyfodol. Er mwyn rhoi sicrwydd, rwy'n credu bod paramedrau'r Bil yn ddigon clir, yn enwedig gan ein bod ni wedi ei leihau bellach i'r pedwar diben hynny y dylai'r Bil gael ei ddefnyddio ar eu cyfer, ac yr wyf i newydd eu hamlinellu mewn ymateb i Peter Fox. Ond rydym ni hefyd yn cydnabod gwir bwysigrwydd yr angen am graffu priodol, a dyna pam yr ydym ni wedi cynnwys mesurau diogelu sylweddol gwirioneddol, yn fy marn i, yn y Bil o ran y weithdrefn.

Eglurodd y Gweinidog hefyd pam ei bod yn teimlo bod y Bil yn sicrhau craffu addas:

Byddai'r Bil yn caniatáu i reoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft gael eu gosod ar ffurf ddrafft am o leiaf 20 diwrnod cyn iddyn nhw gael eu cyflwyno i'r bleidlais. Yn amlwg, os byddan nhw'n cael eu cymeradwyo, bydd modd gwneud y rheoliadau hynny, a gall rheoliadau aros am gyfnod hwy na'r 20 diwrnod cyn eu cyflwyno i'r bleidlais. O dan y weithdrefn gadarnhaol a wnaed, byddem yn ceisio cael y cyfnod hwnnw am 60 diwrnod. Ac yn amlwg, os bydd y bleidlais yn cael ei cholli, neu os daw'r cyfnod o 60 diwrnod i ben, yna mae'r rheoliadau hynny yn peidio â chael effaith o'r dyddiadau hynny, ac rydym ni wedi rhoi barn ar waith ar yr hyn y byddem ni'n ei wneud pe bai'r rheoliadau hynny yn methu. Mae'r mesurau diogelu yr ydym ni wedi eu rhoi o amgylch y weithdrefn gadarnhaol a wnaed, yn benodol, rwy'n credu, yn bwysig, oherwydd dim ond pan fydd Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y rheoliadau'n angenrheidiol oherwydd brys a dim ond at y pedwar diben yr wyf i wedi eu disgrifio y bydden nhw'n cael eu defnyddio. Un enghraifft, rwy'n credu, fyddai angen ymateb ar frys pan fyddai oedi cyn atal cynllun osgoi treth yn arwain at golli referniw sylweddol.

Wrth fynd i'r afael â'r cwestiwn a ofynnwyd ynghylch cynnwys partïon annibynnol wrth benderfynu gweithredu'r pwerau arfaethedig yn y Bil, **dywedodd** y Gweinidog "rwy'n siŵr y cawn ni gyfle i archwilio hynny'n fanylach yn y pwyllgor maes o law, ac ar lawr y Senedd, wrth gwrs".

5. Amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu

Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw amserlenni ar gyfer pryd y bwriedir i'r ddeddfwriaeth gael Cydsyniad Brenhinol. Mae amserlen ddisgwyliedig y Bil fel a ganlyn:

- Cyflwyno'r Bil: 13 Rhagfyr 2021
- Diwedd Cyfnod 1: 26 Ebrill 2022
- Cyfnod 2 yn dechrau: 27 Ebrill 2022
- Cyfnod 3 yn dechrau: 10 Mehefin 2022
- Cyfnod 4: Gorffennaf 2022